Cylchdaith Cwm Penamnen

Cymedrol
Moderate



Mwynhewch daith hyfryd trwy'r coed i fyny i Gwm Penamnen lle cewch fwynhau golygfeydd bendigedig o fynyddoedd Eryri. Mae'r ardal yn gyfoeth o hanes gyda rhan o'r daith yn dilyn y ffordd Rufeinig, Sarn Helen, a oedd yn cysylltu caerau Rhufeinig Tomen y Mur ger Trawsfynydd a Caerhun yn Nyffryn Conwy.

Pellter:	Tua 6 milltir/10km
Amser:	Tua 3 awr
Gradd:	Cymedrol
Dechrau/diwedd:	Maes parcio gorsaf reilffordd Dolwyddelan
Cyfeirnod grid:	SH 738 521
Côd Post:	LL25 0TJ
Map perthnasol:	Arolwg Ordnans Explorer OL 18 (Harlech, Porthmadog a'r Bala)
Cyfleusterau:	Toiledau, siop a bwytai ym mhentref Dolwyddelan

1. Cerddwch allan o'r maes parcio gan droi i'r chwith i fynd dros bont y trên. Hon yw'r rheilffordd o Flaenau Ffestiniog i Gyffordd Llandudno. Ar ôl croesi'r bont, dilynwch y ffordd i'r chwith ac yna trowch i'r dde am Gwm Penamnen gan fynd heibio stryd Glan Gors. Dilynwch y trac i fyny am y coed.

2. Pan ddewch at gyffordd yn y ffordd, ewch syth ymlaen. Wrth i chi esgyn ar hyd y trac fe fyddwch yn mynd heibio craig o'r enw Carreg Alltrem ar y chwith sydd yn boblogaidd iawn gan ddringwyr yn ymarfer eu crefft.

3. Parhewch ar hyd y trac nes cyrraedd fforch yn y ffordd gan aros ennyd i fwynhau'r olygfa ysblennydd o Gwm Penamnen. I'r dde fe welwch gopaon Moel Siabod, Pen yr Helgi Du, Pen Llithrig y Wrach a Charnedd y Cribau. Mae'r afon yn ogystal â'r ffordd Rufeinig, Sarn Helen, i'w gweld yn glir yn y cwm oddi tanoch. Cadwch i'r chwith yn y fforch gan ddilyn y trac i fyny'r cwm.

4. Pan welwch saethau melyn ar arwyddbost ar ochr chwith y ffordd trowch i lawr y llwybr i'r dde gan gychwyn ar eich taith ar hyd Sarn Helen. Dilynwch y llwybr i lawr y cwm gan ddilyn y saethau melyn a mynd heibio tŷ carreg o'r enw Tŷ'n y Cwm.

5. Ar ôl mynd heibio'r tŷ, trowch i'r dde gan ymuno â'r ffordd darmac gan gychwyn ar eich taith yn ôl am y maes parcio gan fynd heibio Pont Carreg Alltrem ar y dde.

6. Ar y ffordd yn ôl i lawr am y pentref, fe fyddwch yn mynd heibio gweddillion rhes o dai Tai Penamnen.

7. Mae'r trac yn eich arwain yn ôl at bont y trên. Ewch drosti gan droi i'r dde yn ôl i mewn i'r maes parcio.

Cwm Penamnen Circular

Cymedrol
Moderate

Enjoy this lovely walk through the woods up to Cwm Penamnen valley where you can enjoy magnificent views of the mountains of Snowdonia. The area is steeped in history and part of the walk follows the ancient Roman road of Sarn Helen that linked the Roman forts of Tomen y Mur near Trawsfynydd and Caerhun in the Conwy Valley.

Distance:	Arount 6 miles/10km
Time:	Around 3 hours
Grade:	Moderate
Start/finish:	Dolwyddelan train station car park
Grid reference:	SH 738 521
Postcode:	LL25 0TJ
Relevant map:	Ordnance Survey Explorer OL 18 (Harlech, Porthmadog & Bala)
Facilities:	Toilets, shop and restaurants in the village

1. Walk out of the car park and turn left over the railway bridge. This is the railway between Blaenau Ffestiniog and Llandudno Junction. After crossing the bridge turn left and then right for Cwm Penamnen passing Glan Gors street. Follow the track uphill towards the woods.
2. When you come to a junction, walk straight on. As you climb up the track you will pass a rock known as Carreg Alltrem on the left which is very popular with climbers practising their skills.
3. Continue along the track until you reach a fork, and stop a while to take in the fantastic view over Cwm Penamnen. To the right you will see the peaks of Moel Siabod, Pen yr Helgi Du, Pen Llithrig y Wrach and Carnedd y Cribau. The river, as well as the Roman road, Sarn Helen, can be seen clearly in the valley below. Take the track to the left up towards the valley.
4. When you come to a sign on the left with yellow arrows, take the path down to the right to join the Sarn Helen Roman road. Follow the path down the valley following the yellow arrows and passing a stone built house called Tŷ'n y Cwm (house in the valley).
5. After passing Tŷ'n y Cwm, turn right to join the tarmac road which will take you back to Dolwyddelan, passing Carreg Alltrem bridge on your right.
6. You will pass the remains of Tai Penamnen terrace on your way back towards the village.
7. The road will take you back to the railway bridge. Cross the bridge turning right into the car park.



Graddfa / Scale
1:18,000

© Hawlfraint y Goron 2020 OS 100022403
© Crown copyright 2020 OS 100022403

Hawlfraint Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
Copyright Snowdonia National Park.

01766 770 274
www.eryri.llyw.cymru
parc@eryri.llyw.cymru